SUL CYFFREDIN 16

JEREMEIA 1:4-10; SALM 71:1-6;
HEBREAID 12:18-29; LUC 13:10-17

● **Gweddi agoriadol**

Dduw'r gorffennol,
derbyn y bobl fuom
a'r llwyth a lusgwn y tu ôl i ni.
Dduw'r presennol,
derbyn ni fel yr ydym nawr,
gyda gofalon
y foment hon.
Dduw'r dyfodol,
derbyn ni fel y byddwn,
a thrwy dy Ysbryd
trawsffurfia ni.

● **Moliant**

Am y cariad a roddaist i ni
o ddydd ein geni,
a'r llwybr a agori i ni
dy weision yma ar y ddaear;
am yr olion traed a ddilynwn,
a'r geiriau a lefarwn –
yr had a wasgarwn
wrth gerdded y llwybr cul;
am y cynhaeaf a gesgli
y dydd mawr a gogoneddus hwnnw,
O Arglwydd, i ti y cyflwynwn
aberth moliant.

● **Cyffes**

Dad cariadus,
poenir ni
gan y cyfleon a gollwyd
pan fethom rannu dy gariad,
bod yn fud neu droi i ffwrdd
oddi wrth anghyfiawnder neu angen.
Maddau i ni, os gweli'n dda,
a thrwy dy Ysbryd
agor ein llygaid
i bosibiliadau beunyddiol
ble gallwn dy wasanaethu
a bod yn eiriau a dwylo i ti
yn hwn, dy fyd hardd
ond bregus.

● Diolch

Am yr adegau hynny,
wrth wynebu amgylchiadau anodd,
pan gawsom air
i dawelu enaid cythryblus,
neu rodd o iechyd,
cysur neu drugaredd
y mae ei ffynnon ynot ti,
y cyflwynwn ein gweddi ddiolchgar.

Am yr adegau hynny,
wrth i amheuon ac ansicrwydd ein herio,
pan dderbyniom ffydd
sy'n gweld heibio i'r presennol
at ddyfodol gogoneddus,
a'r gwyleidd-dra i dderbyn yr help
a ddaw drwy eraill
ond yn y bôn oddi wrthyt ti,
y cyflwynwn ein gweddi ddiolchgar.